# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 14.01.2025

Presennol: Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Meredydd Williams, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Lynda Massarelli,

1. Ymddiheuriadau: Elfed Roberts

Croesawyd Francesca Williams ac Rebecca Phasey i'r Cyngor fel aelodau newydd.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: HP, LM

2a. Datgan Diddordeb: LM yn datgan diddorded i pwynt 3.609, Gareth Jones yn datgan diddordeb i pwynt 4.262, Francesca Williams ac Rebecca Phasey yn datgan diddordeb i pwynt 4.263.

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.596 Cae Chwarae Gellilydan- ymateb wedi ei dderbyn gan Steffan Jones,

***O'r drafodaeth fyr 'rwyf wedi ei gael gydag ambell swyddog mae weld bod yr hyn oedd wedi ei nodi yn flaenorol yn parhau yn gywir sef :-***

- ***bod rhydd-ddaliad y safle wedi ei gofrestru i Gyngor Gwynedd felly mae'r tir yn berchen i Gyngor Gwynedd, a bod prydles anysgrifenedig mewn lle i'r Cyngor Cymuned fod yn gyfrifol am y tir ar gyfer cael maes chwarae yno'***
- ***O'r hyn sydd wedi ei gofnodi ganddoch yn flaenorol mae yma broblem dwr wyneb sydd yn effeithio ar ddefnydd y safle ond hefyd y cyfarpar. Hyd y gwyddom nid oes cofnod bod gwaith blaenorol wedi ei gyflawni gan ein gwasanaeth .***

***Fel ffordd ymlaen cynigaf bod angen archwiliad o'r safle er cadarnhau pa waith fyddai ei angen er atal y broblem dwr gan ddatblygu cynllun er ei gostio. Ar weld hwn yn ei le y cam dilynol fyddai canfod arian ac yn fater unai i drafod gyda'r Adran Eiddo neu efallai bod cyfle am arian grant ?***

***Os ydych yn gytun gyda'r uchod caf sgwrs gyda'r Adran Eiddo er derbyn eu sylw am gefnogi archwiliad er canfod datrysiad ac ei gostio ?***

Clerc i ymateb bod y cyngor yn cytuno i'r camau yma.

3.597 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – yn dilyn cyfarfod gyda Amanda Murray ac Bryn Hughes, Elfed Roberts i ddiweddaru, dim ymateb hyd hyn, (cadw mlaen).

3.598 National Grid: Yn dilyn cyfarfod gyda Dwynwen, Adroddiad byr gan Meredydd Williams yn siarad am grantiau sydd ar gael, (cadw mlaen).

3.599 Neuadd y Pentref - Mae'r 'Charity Commisiom yn hapus hefo'r gwaith sydd wedi ei wneud i ail-ysgrifennu y ddogfen. Angen ychwanegu adran ar ymddiriedolwyr. Ymholidadau i'w gwneud ar faint o aelodau sydd angen ar y Pwyllgor, hefyd prisiau llogi y Neuadd.

- Mae cyfrif y Neuadd gyda chyfanswn o £11823.99 mewn credyd.

3.600 – Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts wedi bod mewn cysylltiad a Rhian

Eleri 11/3/25



CamScanner

Wyn Williams ac yn disgwyl diweddariad (cadw mlaen).

3.601 Hyfforddiant – Eirian Hoyle ac Lynda Massarelli wedi bod ar gwrs hyfforddiant. Dyddiadau newydd i'w hanfon allan pan fyddent ar gael. Bydd angen i bob cynghorwr wneud hyfforddiant o'r Côd Ymddygiad.

3.602 Is-bwyllgor – cadw mlaen.

3.603 Archwiliad Allianz – clerc wedi cysylltu a Wickstead, angen anfon llun o'r offer ymlaen.

3.604 Plas Tan y Bwlch - Cyfarfod gyda swyddogion y Parc ar y 12fed, manylion i ddilyn.

3.605 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost. FW i anfon llun at sylw y clerc.

3.606 Traffig Maentworg i Cilfor – Clerc wedi ail-gysylltu, disgwyl ymateb nôl.

3.607 Biniau Halen – ymateb wedi ei dderbyn,

***Yn dilyn eich cais am y biniau halen yn eich ardal, Mae ein gweithlu wedi bod allan i lenwi y biniau rhwng 11,12,13,14 o fis Tachwedd.***

***Os oes na bin halen wedi cael ei fethu os posib cadarnhau hon hefo ni os gwelwch yn dda?***

3.608 Gordyfiant yn y Pentref: ymateb wedi dderbyn gan Adrian Williams. Trefniant wedi ei wneud bod y gwaith yn cael ei rhoi ar rhestr y Tim Tacluso pan y byddem yn yr ardal nesaf.

3.609 Cefnfaes – Lluniau wedi ei derbyn. Ymateb wedi ei dderbyn.

***Cadarnhaf fod y perchennog wedi cyflwyno Ymholiad Cyn Cyflwyno Cais ac yna cais cynllunio i'r Awdurdod. Tynnwyd yr olaf yn ôl ar ôl i'r swyddog cynllunio gadarnhau bod y gwaith yn dod o fewn hawliau datblygu a ganiateir ddeiliad tŷ. Archwiliais yr adeilad ym mis Rhagfyr ac nid oedd unrhyw waith yn cael ei wneud arno a oedd y tu allan i ddisgrifiad y datblygiad yn y cais cynllunio a dynnwyd yn ôl. Felly, nid oes unrhyw dor-rheolaeth cynllunio ar hyn o bryd.***

***Rwyf wedi gofyn i'r perchennog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am y gwaith wrth iddynt symud ymlaen gyda ffotograffau, felly mae'r safle'n cael ei fonitro. Bydd y sgaffaldiau gorchuddiedig yn eu lle tan o leiaf fis Mawrth.***

3.610 Gof Golofn – Clerc i gael pris am arwyddion newydd.

3.611 Creu manau parcio – Heulwen Parry wedi draftio llythyr at sylw y trigolion, Francesca Williams am fynd o gwmpas y tai i gael eu barn.

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.261 Praesept - cytunwyd i'w godi 5%

4.262 Tir ger cae chwarae Maentwrog (dros y ffordd i Tan y Foel) – bryderon oherwydd posib problem gyda dŵr oherwydd bod y rwbel sydd wedi'i gludo yno yn cynyddu uchder y tir. Clerc i gysylltu a'r Parc.

4.263 Llythyr wedi ei dderbyn gan Cymuned Gybolfa – Penderfynwyd roi cyfraniad o £500.

4.264 Cae Chwarae Maenwrog - angen rhoi clo ar y giat, Rebecca Phasey am roi arwydd dros dro yno.

<u>5. Ariannol</u>



CamScanner

5.188 Cyfrif Cadw:  £226.15

5.189 Cyfrif Cyfredol:  £4238.44

Cytunwyd i dalu y canlynol:

Un Llais £40.00

Sarah Dafis £60.00

Theatr Gybolfa £500.00

Arwchilio Cymru £217.00

Costau Clerc (yn cynnwys Printer newydd)  £82.99

6. Cynllunio

Dim ceisiadau

7. Gohebiaeth

255 Llywodraaeth Cymru Adran 137

256 Cymuned Gybolfa

8. Adroddiad o gyfarfodydd  eraill

8.29 Grantiau heb eu didoli hyd hyn, (cadw mlaen).

9. Mynwent Dwyryd

9.57 Cyfrif y Fynwent:  £22592.04

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.58 Richard Jones £360.00

9.59 Martin Kerr £460.00

9.59 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix, (cadw mlaen).

9.60 Meredydd Williams wedi cyfarfod gyda Ben Hoschief -  Arolwg o'r fynwent wedi ei wneud, ond angen cyfarfod eto i gael cywirdeb.

9.61 Tap y Fynwent angen ei newid.  Gareth ac Eurwyn Jones am drefnu ei wneud, (cadw mlaen).

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Mawrth 4ydd, Neuadd y Pentref am 6.30 o'r gloch.

11/3/25



CamScanner